



Adroddiad Effaith

2023/24

Cynnwys

Croeso a chrynodeb

Croeso	03
Diolch	05
BookTrust yn 2023/24: cipolwg	07
BookTrust yn 2024/25: Beth nesaf?	09

Ynglŷn â BookTrust

Cyflwyno BookTrust a'n model effaith	10
Pam mae buddsoddi mewn darllen yn bwysig	12
Dull a arweinir gan dystiolaeth BookTrust o newid bywydau plant	13
BookTrust: hyrwyddo darllen yn y blynyddoedd cynnar yn 2023/24	15

Ein Heffaith

Maes ffocws 1: Y blynyddoedd cynnar	17
Ymgorffori darllen ym mywydau pob teulu incwm isel	

Maes ffocws 2: Plant o gefndiroedd teulu agored i niwed	24
Defnyddio darllen ar y cyd i ddod a mwynhad a sefydlogrwydd i blant agored i niwed	

Maes ffocws 3: Cymorth ymarferwyr	27
Cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen teuluol ar y cyd	

Maes ffocws 4: Ysgolion	31
Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen	

Uchafbwyntiau eraill yn 2023/24	35
---------------------------------------	----

Cyfeiriadau a methodoleg

38

Sut i ddefnyddio'r PDF hwn

 Cliciwch i ddychwelyd i'r cynnwys

 Defnyddiwch y tabiau digidol ar y dde i lywio rhwng yr adrannau

Cyflwyniad



Croeso gan Brif Weithredwr BookTrust

Croeso i adroddiad effaith diweddaraf BookTrust. Yma rydym yn cyflwyno crynodeb o'n heffaith y llynedd (2023–2024) wrth gael plant a theuluoedd i ddarllen, fel y gallant brofi [manteision tymor byr a hirdymor allweddol darllen yn ystod plentyndod](#).

Nid yw ein cenhadaeth i gefnogi plant a theuluoedd, gyda phwyslais penodol ar y rhai o aelwydydd incwm isel a chefnidiroedd teuluol bregus, erioed wedi bod yn bwysicach. Mae tystiolaeth gynyddol o ddirywiad ym mwynhad darllen plant a bylchau cyrhaeddiad rhwng plant sy'n wynebu anfantais economaidd a'r rhai nad ydynt, gan ddechrau o'r adegau cynharaf yn ystod plentyndod. Mae'r anghydraddoldebau hyn o ran canlyniadau yn parhau i blant drwy'r ysgol a thu hwnt. Ledled y DU, mae'r argyfwng costau byw wedi gwthio mwy o deuluoedd i dlodi ac i brofi'r heriau dwfn a chymhleth sy'n gysylltiedig â thlodi. Mae'r effeithiau hyn yn pwyso fwyaf ar y rhai sydd lleiaf abl i gario'r baich.

Nid ydym yn esgus bod darllen ar y cyd ar ei ben ei hun yn datrys yr holl broblemau y mae plant a theuluoedd yn eu hwynebu, ond gwyddom ei fod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac uniongyrchol yn ystod plentyndod a thu hwnt. Gwyddom ei fod yn helpu plant i gwrdd â cherrig milltir iaith a lleferydd a datblygu perthnasoedd cryf. Gwyddom ei fod yn cefnogi datblygiad cymdeithasol-emosiynol, llesiant meddyliol, creadigrwydd a dychymyg. Mae'n helpu plant i wneud yn well yn yr ysgol ac, yn y tymor hwy, oresgyn anfantais. Yn syml: mae sicrhau bod plant yn profi darllen a rennir o'r eiliadau cynharaf yn rhan bwysig o roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd.

Mae ein corff eang a hirsefydlog o ymchwil a gwaith gyda theuluoedd yn golygu bod BookTrust yn deall beth sydd ei angen i gael a chadw plant i ddarllen. Mae ein rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a grëwyd ar y cyd â theuluoedd ac ymarferwyr, wedi'u cynllunio i chwalu rhwystrau i ymarfer darllen rheolaidd drwy gefnogaeth, adnoddau a phrofiadau sy'n galluogi ac yn ysgogi teuluoedd. Ac mae ein gweithgareddau dysgu a gwerthuso gyda theuluoedd a phartneriaid yn dangos bod y rhaglenni hyn yn cefnogi teuluoedd i ymgorffori darllen mewn bywyd teuluol bob dydd.

Y llynedd, cyrhaeddom ni dros 1.3 miliwn o deuluoedd, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwnaethom weithio'n galed i gefnogi ac ymgysylltu ag ymwelwyr ieuchyd, gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, gweithwyr cymunedol, athrawon a lluo o bartneriaid eraill, sy'n dod â hud darllen i deuluoedd a fydd yn elwa fwyaf o gefnogaeth darllen. Mae'r rhwydwaith partneriaeth unigryw hwn wedi'i ymgorffori yn golygu bod plant ym mhob cymuned yn elwa o gefnogaeth BookTrust.

Gyda thystiolaeth gref o'r gwahaniaeth y gallwn ei wneud i deuluoedd, rydym yn awyddus i wneud mwy. Yn Haf 2025 byddwn yn lansio ein strategaeth newydd gyda chynlluniau i barhau i ehangu ein heffaith ar gyfer y genhedlaeth hon o blant a chenedlaethau'r dyfodol. Rydym yn dechrau'r bennod nesaf hon ar adeg o her a newid cenedlaethol. Mae llywodraeth newydd, sydd wedi ymrwymo i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a chwalu rhwystrau i gyfleoedd, yn nodi adeg bwysig i'r teuluoedd yr ydym yn ceisio eu gwasanaethu.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n rhwydwaith helaeth ac amrywiol o bartneriaid a gefnogodd ein gwaith y llynedd. Ac rydym yn edrych ymlaen at esblygu ein sylfaen partneriaid a'n modelau partneriaeth i gryfhau ymhellach y gefnogaeth i deuluoedd ar yr adeg bwysig hon. Ymunwch â ni yn y genhadaeth hanfodol hon.



Diana Gerald
Prif Swyddog Gweithredol, BookTrust

Diolch

Rydym yn estyn diolch yn fawr iawn i'r miloedd lawer o bartneriaid BookTrust sy'n gweithio gyda ni, ac yn benodol i:

- Ein Noddwr, **Ei Mawrhydi y Frenhines**, am ei nawdd a'i chefnogaeth barhaus i achos darllen, a'n **Llywydd, Syr Michael Morpurgo**, am ei gefnogaeth a'i ysbrydoliaeth hirdymor.
- Ein rhwydwaith cenedlaethol o **Bookstart Cydlynwyr, awdurdodau lleol, ymarferwyr a phartneriaid cymunedol**, yn gweithredu ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. I'r rhai sy'n cefnogi teuluoedd mewn llyfrgelloedd, sefydliadau cymunedol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ymwelwyr ieuchyd ac i bartneriaid awdurdodau lleol ac ysgolion: diolch am fod yn rhan hanfodol o'r hyn a wnawn.
- Ein partneriaid mewn **cyhoeddi, awduron a darlunwyr**, sydd wrth wraidd ein gwaith i ysbrydoli plant a theuluoedd ar eu teithiau darllen.

Rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth hael a dderbyniwn gan y rhai sy'n rhannu ein cenhadaeth i gael plant a theuluoedd i ddarllen er mwynhad:

- Cyngor Celfyddydau Lloegr
- Llywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Adran Addysg – Gogledd Iwerddon, yr Awdurdod Addysg – Gogledd Iwerddon

Hoffem ddiolch i rai o'r nifer o unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau a gefnogodd ein gwaith yn hael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys:

- Accelerated Intelligence Ltd
- Andersen Press
- Bloomsbury Publishing
- Bookshop.org
- BookSpace
- Build-A-Bear Foundation
- Clara E Burgess Charity
- Emerald Publishing Limited
- GMC Trust
- Good Humans
- Hyde Park Place Estate Charity
- Kajima
- MarketingTwentyOne
- Mercury
- Mike Gooley Trailfinders Charity
- Mintaka Trust
- Mohn Westlake Foundation
- Mushens Entertainment
- Oxford University Press
- Panduit
- Peters Ltd
- Princeton University Press
- Promote Your School
- Renaissance
- Rolex
- Sadie Coles HQ
- Simmons & Simmons LLP
- Solution Junkies Limited

- Strand Parishes Trust
- The Alec-Smith Family Trust
- The Alan Greenaway Foundation
- The Bhim Ruia Foundation
- The Catherine Cookson Trust
- The Elizabeth Frankland Moore and Star Foundation
- The Fishburn Family Trust
- The Folio Society
- The George Cadbury Fund
- The Goldsmiths' Company Charity
- The Harris Poll
- The Lawson Trust
- The Pitt-Rivers Charitable Trust
- The Tanlaw Foundation
- Usborne
- Vision Architectural Glazing Installations Ltd
- Waterstones
- Westminster Abbey

Hoffem ddiolch i'n Ffrindiau BookTrust a chefnogwyr ein hapeliadau, gan gynnwys y teuluoedd, yr ysgolion a'r meithrinfeydd a gefnogodd y digwyddiad codi arian Pyjanarama, ac i bawb sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau her ar ran BookTrust.

BookTrust yn 2023/24: Cipolwg

2023/24 oedd trydedd flwyddyn ein strategaeth i gefnogi teuluoedd incwm isel a phlant o gefndiroedd teuluol agored i niwed i gael darllen o'r adegau cynharaf yn ystod plentynod. Cefnogodd ein gwaith dros y cyfnod hwn blant ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn crynhoi rhai o'n gweithgareddau craidd, ein cyrhaeddiad a'n heffaith yma:

Ein cyrhaeddiad yn 2023/24:

Teuluoedd



- Cyrhaeddom ni dros **1.3 miliwn o deuluoedd**, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
- Gwnaethom ddarparu dros **1.1 miliwn o becynnau darllen** yn cynnwys mwy na **2.7 miliwn o lyfrau ac adnoddau cymorth** darllen i deuluoedd a phartneriaid

Cymorth ymarferwyr



- Gwnaethom gefnogi **2,568 o lyfrgelloedd a thros 53,000 o blant** drwy Amser Stori BookTrust
- Roedd gennym **gytundebau partneriaeth** ar waith gyda **phob awdurdod lleol** yng Nghymru a Lloegr

Y blynyddoedd cynnar



- Tyfodd ein rhwydwaith o bartneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar i dros **6,200**
- Cyrhaeddodd cynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust 408,000 o blant 1–4 oed a **37% o'r holl deuluoedd incwm isel â phlant ifanc 1–4 oed**
- Gwnaethom ddosbarthu llyfrau ac adnoddau darllen i **dros 90% o deuluoedd â babanod newydd**
- Gwnaethom ddarparu ein hadnoddau blynyddoedd cynnar Dwy iaith i **42,500 o deuluoedd** â phlant 1–4 oed sy'n siarad **Saesneg fel iaith ychwanegol**

Ysgolion



- Gwnaethom anfon ein Canllaw Llyfrau Gwych i **bob ysgol gynradd** yn Lloegr a Gogledd Iwerddon
- Gwnaethom ysgrifennu a chyhoeddi dros **370 o adolygiadau llyfrau** ar ein **llwyfan Bookfinder** (Saesneg yn unig)
- Cymerodd dros draean o ysgolion uwchradd y wladwriaeth a **259,000 o ddisgyblion** ran yn ein rhaglen Bookbuzz ar gyfer ysgolion uwchradd

Plant o gefndiroedd teulu agored i niwed



- Gwnaethom gefnogi **mwy na 11,000 o blant o gefndiroedd teulu agored i niwed** – y rhan fwyaf yn blant 3–13 oed mewn lleoliadau maeth hirdymor

“ Rydw i wrth fy modd yn darllen nawr. Doeddwn i ddim yn hoffi llyfrau o'r blaen – mi rydw i ”

Plentyn yn derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau

Ein heffaith yn 2023/24:

Y blynyddoedd cynnar



- Mae **94% o deuluoedd** a gymerodd ran yn ein gwerthusiad yn graddio rhaglenni BookTrust fel rhai **da, da iawn neu ardderchog**
- Mae **71% o deuluoedd** sy'n derbyn Bookstart i Fabanod yn dweud bod y llyfrau yn y pecyn **ymhlith y cyntaf a berchenogasant** ar gyfer eu babi.
- Mae **72% o deuluoedd** sy'n derbyn Bookstart i Fabanod yn **dweud ei fod wedi gwneud iddynt deimlo'n fwy hyderus** ynglŷn â darllen gyda'u plant.
- Mae **98% o deuluoedd** yn dweud eu bod yn mwynhau defnyddio adnoddau a gweithgareddau Blynyddoedd Cynnar BookTrust gyda'u plant
- Mae **84% o deuluoedd incwm isel sy'n ymgysylltu â** rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust yn dweud eu bod wedi'u **hannog i ddarllen mwy gyda'u plant**
- Mae **82% o deuluoedd incwm isel sy'n ymgysylltu â'n** rhaglenni Blynyddoedd Cynnar yn dweud eu bod wedi **dysgu gwahanol ffyrdd o rannu straeon gyda'u plant**
- Mae **67% o rieni/gofalwyr wedi ceisio sefydlu arfer darllen gartref** o ganlyniad i'n rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust
- Mae rhieni/gofalwyr wedi sylwi ar effaith ar **sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu** eu plant o ganlyniad i gymryd rhan yn rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust. Dywed **70%** fod eu plentyn wedi **dysgu geiriau newydd**. Dywed **59%** fod eu plentyn wedi **siarad neu ryngweithio mwy**

Cymorth ymarferwyr



- Mae **95% o bartneriaid** yn ein rhwydwaith blynyddoedd cynnar yn dweud bod rhaglenni **Blynyddoedd Cynnar BookTrust** yn effeithiol ar gyfer cael teuluoedd â phlant ifanc i ddarllen gyda'i gilydd
- Mae **95% o bartneriaid** yn ein rhwydwaith blynyddoedd cynnar yn dweud bod ein rhaglenni'n **eu cefnogi i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr**

Plant o gefndiroedd teulu agored i niwed



- Mae **97% o blant mewn gofal** sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau yn dweud eu bod yn **hoffi neu wrth eu bodd yn defnyddio'r adnoddau**
- Mae **70% o blant mewn gofal** sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau yn dweud eu bod nhw **bellach yn darllen mwy ar eu pen eu hunain**

“ Mae rhaglenni Bookstart i Blant Bach a Phlant Cyn Oed Ysgol yn werthfawr i'r plant hynny sy'n colli allan. Mae angen rhywfaint o ymyrraeth ar blant sy'n cwmpo drwy'r bylchau. Mae'r meithrinfeydd yn gwneud gwaith gwych, ond mae hefyd yn ymwneud â chael plant i ddarllen a datblygu tra maen nhw gartref. Mae Bookstart i Blant Bach a Phlant Cyn Oed Ysgol yn creu ffordd wych o wneud hynny. ”

Partner dosbarthu Bookstart,
Gogledd Lloegr

¹Gweler tudalen 38 am ffynonellau a gwybodaeth am ein data a'n dull mesur effaith

BookTrust yn 2024/25: Beth nesaf?

Rydym yn falch o rannu ein cynnydd yn 2023/24. Er ein bod yn gwneud gwahaniaeth pwysig i ddarllen plant, gwyddom fod angen gwneud llawer mwy. Yn ein gwaith eleni rydym yn parhau i gyflwyno rhaglenni newid ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i dros 1.3 miliwn o blant yn ogystal â datblygu rhaglenni a dulliau newydd. Ein pwyslais o hyd yw cefnogi plant o gefndiroedd teulu incwm isel ac agored i niwed, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth esblygol o'r mecanweithiau sy'n ysgogi newid ymddygiad cadarnhaol yn y teuluoedd hyn.

Yn Haf 2025 byddwn yn lansio ein strategaeth newydd gan nodi ein cynlluniau manwl i barhau i ddyfnhau ac ehangu ein heffaith ar gyfer y genhedlaeth hon o blant a chenedlaethau'r dyfodol.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n rhwydwaith rhyfeddol o bartneriaid, rhoddwyr a chyllidwyr i ysgogi'r newid hwn.

I drafod sut y gallwch weithio gyda ni fel partner dysgu, cyllidwr neu bartner cymunedol, neu i ofyn am gael edrych ar ein strategaeth newydd yn gynnar, anfonwch e-bost i: impact@booktrust.org.uk



Ynglŷn â BookTrust

Cyflwyno BookTrust a'n model effaith

BookTrust yw elusen ddarllen plant fwyaf y DU gyda hanes sy'n ymestyn yn ôl dros 100 mlynedd. Ein ffocws yw helpu plant a theuluoedd i ymgorffori darllen yn eu bywydau beunyddiol, fel eu bod yn profi **manteision** uniongyrchol a gydol oes darllen. Rydym yn blaenoriaethu cefnogaeth i blant o gefndiroedd teuluol incwm isel ac agored i niwed, a darllen ar y cyd yn gynnar – gan fod manteision darllen gyda'n gilydd yn ystod y blynyddoedd cynnar mor drawsnewidiol.

Rydym yn gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae gennym gytundebau partneriaeth hirdymor ar waith gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn un o Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr. Mae ein pencadlys yn Leeds ac mae gennym swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd a Belfast a staff ledled y wlad.

Mae ein cenhadaeth yn uchelgeisiol. Bob blwyddyn rydym yn cyrraedd miliynau o blant a theuluoedd, gan eu hysbrydoli gyda llyfrau, adnoddau a chefnogaeth i'w helpu i ddechrau a chynnal eu teithiau darllen. Rydym yn ceisio cael effaith ddofn a chynaliadwy ar deuluoedd sy'n byw mewn amgylchiadau gwahanol, yn wynebu heriau gwahanol gydag anghenion, rhwystrau a chymhellion gwahanol.

Ein nod yw cyflawni effaith drwy bedwar maes ffocws allweddol:

- 1. Y blynyddoedd cynnar:** Ymgorffori darllen ym mywydau pob teulu incwm isel
- 2. Plant o gefndiroedd teulu agored i niwed:** Defnyddio darllen ar y cyd i ddod a mwynhad a sefydlogrwydd i blant agored i niwed
- 3. Cymorth ymarferwyr:** Cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen teuluol ar y cyd
- 4. Ysgolion:** Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cynnydd ar draws y pedwar maes ffocws hyn yn y drydedd flwyddyn wrth gyflawni ein strategaeth ar gyfer 2021–2026.

Canolbwyntio ein cefnogaeth dros effaith

Er y gwyddom fod pob plentyn yn elwa o ddarllen, rydym wedi ymrwmo i gynnig cefnogaeth wedi'i chanolbwyntio mwy i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel ac agored i niwed gan y gwyddom mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o ddarllen yn rheolaidd ac o ddewis. Rydym yn defnyddio'r term 'teuluoedd mewn aelwydydd incwm isel' i nodi'r rhai sy'n byw mewn tldi cymharol fel y'i diffinnir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn ystod 2023/24, canolbwyntiodd ein cefnogaeth i blant o gefndiroedd teulu agored i niwed yn benodol ar blant mewn gofal maeth hirdymor. Mae plant o gefndiroedd teulu agored i niwed hefyd wedi'u gor-gynrychioli mewn aelwydydd incwm isel.

Ffigur 1: Model effaith BookTrust

Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn drwy hud a phŵer darllen

Mae **BookTrust** yn dylunio rhaglenni newid ymddygiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gael plant i ddarllen. Darperir ein hadnoddau, gweithgareddau a chymorth o ansawdd uchel drwy ein rhwydwaith partneriaid helaeth. Mae ein partneriaid dosbarthu yn cael eu dewis oherwydd eu gallu i gyrraedd y plant a'r theuluoedd mwyaf anghenus.

Mae **partneriaid BookTrust** yn ymgysylltu â'n hadnoddau, ein cynnwys a'n cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel. Mae ganddynt yr offer, yr hyder a'r sgiliau i gefnogi plant a theuluoedd gyda darllen.

Mae **plant a theuluoedd** yn ymgysylltu â'n rhaglenni drwy gydol y blynyddoedd cynnar a'r ysgol. Rydym yn darparu ystod amrywiol o lyfrau, adnoddau a gweithgareddau a ddewiswyd yn arbenigol sy'n gweithio i blant a theuluoedd, gan roi'r dewis, yr hyder a'r ysbrydoliaeth iddynt gychwyn a meithrin arferion darllen.

Mae darllen yn dod yn rhan arferol o fywyd bob dydd i blant a theuluoedd.

Mae plant o gefndiroedd teuluoedd incwm isel ac agored i niwed yn profi manteision uniongyrchol a gydol oes darllen



Goresgyn
anfanteision



Datblygu
llesiant
meddyliol
gwell, sgiliau
cymdeithasol a
pherthnasoedd
cryf



Cyrraedd
cerrig milltir
lleferydd ac
iaith a gwneud
yn well yn yr
ysgol



Datblygu
dychymyg,
empathi a
chreadigrwydd

Mae ein Damcaniaeth Newid fanwl ar gael [yma](#) (Saesneg yn unig).

Pam mae buddsoddi mewn darllen yn bwysig

Gwyddom o ddegawdau o brofiad o weithio gyda degau o filiynau o blant a miloedd o bartneriaid lleol, fod darllen yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu i gyflawni canlyniadau da i blant. Mae ganddo effaith sydd wedi'i phrofi'n eang ar [ganlyniadau uniongyrchol a hirdymor](#).

Yn y tymor byr, mae darllen yn cyfrannu at fondio ac ymlyniad, llesiant plant a rhieni, datblygiad ymennydd plant, eu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol. Mae darllen yn cefnogi plant i gael llythrennedd gwell, perfformio'n well ar draws y cwricwlwm a dangos empathi a chreadigrwydd cryfach. Yn y tymor hwy, gall darllen liniaru anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol hirdymor. Mae buddsoddi mewn darllen plant yn gynnar yn ystod plentyndod yn golygu bod mwy o blant yn cael profi'r manteision uniongyrchol a hirdymor hyn.

Roedd 2023/24 yn gyfnod heriol i'r teuluoedd a'r partneriaid rydym yn eu cefnogi. Mae nifer cynyddol o deuluoedd wedi bod ac yn wynebu anfantais economaidd – mae 30% o'r holl blant bellach yn tyfu i fyny mewn tlodi, y lefel uchaf ers 1994/95. Ac mae tystiolaeth yn dangos yn glir bod y bylchau cyrhaeddiad rhwng plant sy'n tyfu i fyny yn wynebu anfantais economaidd a'r rhai nad ydynt yn dechrau o'r eiliadau cynharaf yn ystod plentyndod. Gwyddom fod sgiliau plant yn datblygu'n anghyfartal iawn yn y blynyddoedd cynnar, gyda gwahaniaethau'n gysylltiedig yn gryf â chefnidir teuluol. Yn 3 oed, mae plant yn y teuluoedd incwm uchaf dros dair gwaith yn fwy tebygol o fod â gallu gwybyddol uchel na phlant yn y teuluoedd incwm isafii. Mae ein partneriaid cyflawni,

gan gynnwys ymwelwyr iechyd, gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, athrawon, llyfrgelloedd a gweithwyr cymunedol, yn nodi heriau dwfn sy'n wynebu eu gwaith a'r teuluoedd y maent yn ceisio eu cefnogi. Parhaodd llawer i weld plant yn profi effeithiau pandemig COVID-19. Mae datblygiad iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a llesiant plant yn parhau i fod yn heriau mawr sy'n wynebu plant a'u teuluoedd.




Dull a arweinigir gan dystiolaeth BookTrust o newid bywydau plant

Mae BookTrust wedi ymrwymo i weithio fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn creu effaith barhaol o ran newid ymddygiad ar gyfer y genhedlaeth hon o blant, mae angen i ni nodi, cyfieithu ac ysgogi dealltwriaeth gan deuluoedd a'r rhai sy'n gweithio i'w cefnogi ar draws ein gwaith, a chael dull cadarn o fesur effaith.

Ers 2021 rydym wedi trawsnewid ein dull o ddysgu, datblygu a mesur effaith, gan ymgorffori model cadarn i gefnogi cyflawni ein strategaeth.

Ffigur 2: Model sy'n seiliedig ar dystiolaeth BookTrust ar gyfer newid ymddygiadau darllen plant o gefndiroedd teulu incwm isel ac agored i niwed:



Roedd 2023/24 yn flwyddyn bwysig arall o ddysgu, ymchwil a gwerthuso i BookTrust. Gwnaethom barhau â gwerthusiadau dulliau cymysg o'n prif raglenni a chyflwyno gweithgareddau a modelau dysgu newydd i lywio ein gwaith, gan gynnwys:

- Profi a datblygu dysgu i lywio ein rhaglenni newydd ar gyfer plant o **gefndiroedd teulu agored i niwed**
- Dechrau ein **hastudiaeth hydredol** gyntaf gyda 22 o deuluoedd o gartrefi incwm isel sydd wedi ymgysylltu â'n rhaglenni Blynyddoedd Cynnar. Mae'r astudiaeth yn archwilio arferion darllen, agweddau, ymddygiadau teuluoedd ac effaith hirdymor ein rhaglenni
- Peilota'n **Harolwg Partner BookTrust** newydd ar gyfer ein holl bartneriaid cyflenwi i'n helpu i ddeall ein rhwydwaith partneriaid yn well a gwella ymhellach y gefnogaeth i'n partneriaid a'n teuluoedd
- Sefydlu **Parthau Dysgu BookTrust** newydd – saith partneriaeth ddysgu gydweithredol rhwng awdurdodau lleol a BookTrust, sy'n cefnogi ein dysgu seiliedig ar le sy'n gysylltiedig â chyflwyno ein rhaglenni yn yr ardaloedd hynny
- Drwy'r gweithgareddau dysgu hyn, gwnaethon ymgysylltu â **mwya na 1,200 o deuluoedd** yn 2023/24. Rydym yn ddiolchgar i'r plant, rhieni a gofalmwr hyn am eu cyfranogiad yn ogystal ag i'r **600+** o bartneriaid cyflawni a gymerodd ran yn ein gwerthusiad a'n hymchwil.



Roeddem wrth ein bodd yn gweld ein **dull o ddysgu** (Saesneg yn unig) wedi'i gydnabod fel enillwyr **gwobr Ysgogi Dealltwriaeth Cymdeithas Ymchwil y Farchnad** am ein dyluniad rhaglen Blynyddoedd Cynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth.



BookTrust: hyrwyddo darllen yn y blynyddoedd cynnar yn 2023/24

Un o brif meysydd ffocws 2023/24 oedd codi proffil darllen yn y blynyddoedd cynnar, gyda chefnogaeth rhaglenni, ymchwil a dealltwriaeth BookTrust.

Mae BookTrust wedi ymrwymo i gynnal a rhannu ymchwil newydd gyda'n sylfaen eang o bartneriaid cyflawni a strategol, sefydliadau a rhwydweithiau sy'n rhannu ein hymrwymiad i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Y llynedd gwnaethom gynydd sylweddol yn y maes hwn o'n gwaith.



- Gwnaethom lansio'r ymgyrch [**Darllen Gyda'n Gilydd, Newid Bywydau Plant**](#) (Saesneg yn unig)
- Gwnaethom gynhyrchu tri briff ymchwil newydd ar agweddau allweddol ar ddarllen plant, yn seiliedig ar ymchwil newydd BookTrust a'r sylfaen dystiolaeth ehangach:
 - [**Arferion darllen plant yn y blynyddoedd cynnar**](#) (Saesneg yn unig)
 - [**Rôl 'Dylanwadwyr Darllen' lluosog o ran cefnogi teithiau darllen plant**](#) (Saesneg yn unig)
 - [**Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar: cefnogi cylchoedd cenedlaethau darllenwyr**](#) (Saesneg yn unig)
- Gwnaethom gyhoeddi [**offeryn rhyngweithiol newydd Manteision Darllen**](#) sydd bellach yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan bartneriaid yn y sector, ac a gyfeirir ato yn adolygiad tystiolaeth Dechau Gorau mewn Bywyd (2024) Ofsted.

Dros gyfnod y flwyddyn, gwnaethom rannu ein hymchwil â channoedd o weithwyr proffesiynol ac addysgwyr y blynyddoedd cynnar drwy gyhoeddi briffiau ymchwil, straeon yn y cyfryngau, digwyddiadau BookTrust a digwyddiadau allanol gan gynnwys yr Arddangosfa Gofal Plant ac Addysg, Symposiwm Darllen er Mwynhad y Brifysgol Agored a Chynhadledd Llythrennedd ASCL. Gwnaethom hefyd gynnal sesiynau ar gyfer United Learning a Chymdeithas Llywodraeth Leol.

Ym mis Ionawr lansiwyd ein ymgyrch [**'Darllen Gyda'n Gilydd, Newid Bywydau Plant'**](#) (Saesneg yn unig) yn galw am ffocws hirdymor ar ddarllen i blant dan saith oed a buddsoddi ynddo. Mae cynllun gweithredu 'Darllen Gyda'n Gilydd' yn grynodedig o wybodaeth a dealltwriaeth BookTrust ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud i greu'r **trawsnewidiad systemig sydd ei angen ym maes darllen plant**.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys digwyddiad cenedlaethol, ymgysylltu â'r cyfryngau, ymchwil newydd a chynhyrchu offer cyfathrebu newydd.

Gyda chefnogaeth ein Llywydd, Syr Michael Morpurgo, pob Bardd Llawryfog Plant Waterstones dros y 25 mlynedd diwethaf a'n rhwydwaith ehangach o bartneriaid cyflawni a chreadigol, cynhyrchodd 'Darllen Gyda'n Gilydd, Newid Bywydau Plant' sylw cryf yn y cyfryngau ac ymgysylltiad gan lunwyr polisi a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r gwaith hwn yn parhau eleni.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae plant o grwpiau sydd wedi'u heithrio wedi'u gorgynrychioli yn ein grwpiau cynulleidfada darged o deuluoedd incwm isel a phlant o gefndiroedd teulu agored i niwed. Er enghraifft, mae 31% o blant mewn tlodi o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom ddewis, argymhell a dosbarthu miloedd o lyfrau cynhwysol gyda straeon a darluniau sy'n cynrychioli ystod amrywiol o wahanol fywydau, profiadau a diwylliannau. Gwnaethom gynnwys safbwyntiau amrywiol yn ein gweithgareddau ymchwil a dylunio, ac archwilio ffyrdd newydd o sicrhau bod ystod eang o leisiau'n cyfrannu at ein hymchwil, dylunio a datblygiad.

Gwnaethom gefnogi crewyr lliw newydd, a threfnu digwyddiadau wyneb yn wyneb a rhithwir i grewyr lliw ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd i ysbrydoli plant gyda'u gwaith. Gwnaethom ymestyn ein rhwydwaith partneriaeth blynyddoedd cynnar ymhellach i wella ein mynediad at deuluoedd mewn cymunedau amrywiol ac eithriedig ledled y DU.

Ein Heffaith

Maes ffocws 1: Y blynyddoedd cynnar

Ymgorffori darllen ym mywydau pob teulu incwm isel

Trosolwg

Mae cael teuluoedd i ddarllen gyda'i gilydd o'r adegau cynharaf yn dod â manteision unigryw, uniongyrchol a hirdymor i blant a'r rhai sy'n darllen gyda nhw, ac mae'n bwysig ar gyfer meithrin arferion darllen tymor hwy plant. Mae cefnogaeth BookTrust i deuluoedd y blynyddoedd cynnar yn cynnwys cyfres o raglenni sefydledig, profedig a graddfaol a gyflwynir gan ein rhwydwaith helaeth o bartneriaid y blynyddoedd cynnar. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu teuluoedd i ymgorffori darllen cynnar ar y cyd yn eu harferion beunyddiol.

Taith ddarllen y blynyddoedd cynnar BookTrust

Mae ein rhaglenni blynyddoedd cynnar wedi'u hymgorffori, ar raddfa fawr, ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant o gartrefi incwm isel.



Delwedd 1: Portffolio blynyddoedd cynnar BookTrust



Taflu goleuni: Mecanweithiau ar gyfer effaith

Mae pob elfen o raglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust wedi'i chynllunio i ysgogi arferion darllen. Isod rydym yn rhannu rhai nodweddion o'n model:

1. Mae ein hadnoddau'n helpu partneriaid blynyddoedd cynnar i gyflwyno adrodd straeon mewn gwahanol leoliadau

Sut mae hyn yn gweithio i bartneriaid:

- ♥ Mae hadnoddau hyblyg yn caniatáu i bartneriaid **eu defnyddio mewn gwahanol sefyllfaoedd**, gan gysylltu â sgysiau ehangach â theuluoedd.
- ♥ Mae llyfrau a phropiau BookTrust yn caniatáu i bartneriaid **ddangos, yn hytrach na dweud**, sy'n cefnogi ymgysylltiad a hyder rhieni/gofalwyr yn well

Sut mae hyn yn gweithio i deuluoedd:

- ♥ Mae modelu rôl yn dangos sut y gall darllen fod yn rhywbeth y mae **eu plentyn yn ei fwynhau**, gan ei gymell i roi cynnig arni ei hun
- ♥ Mae clywed gan bartner blynyddoedd cynnar y **gellir cysylltu ag ef ac y gellir ymddiried ynddo** a gweld **teuluoedd eraill yn ymgysylltu** yn cefnogi cymhelliant

2. Mae pob eitem yn ein pecynnau blynyddoedd cynnar wedi'i chynllunio i ysgogi arferion darllen

Sut mae hyn yn gweithio i deuluoedd:

- ♥ Mae gwybodaeth a gweithgareddau'n **dangos sut y gall darllen fod yn hwyl**, a phan fydd darllen yn hwyl mae teuluoedd yn cael eu cymell i ddarllen mwy
- ♥ Mae'r **llyfrau wedi'u dewis yn ofalus** i gefnogi datblygiad plant a meithrin y rhyngweithio sy'n allweddol i ddarllen ar y cyd
- ♥ Mae **llyfrau rhyngweithiol, perthnasol, cynrychioliadol a diddorol** yn gwneud darllen yn fwy o hwyl. Pan fydd rhieni/gofalwyr a phlant yn gweld mwynhad ei gilydd, maent yn cael eu cymell i ddarllen gyda'i gilydd yn amlach

3. Rhoi ein pecynnau fel anrheg – elfen allweddol i ymgysylltu teuluoedd â darllen

Sut mae hyn yn gweithio i bartneriaid:

- ♥ Mae partneriaid yn defnyddio pecynnau BookTrust fel ffordd o **ddechrau sgysiau** am ddarllen
- ♥ Mae rhoi anrhegion yn creu **adeg o ddathlu**, sy'n cefnogi ymgysylltiad teuluol cadarnhaol

Sut mae hyn yn gweithio i deuluoedd:

- ♥ Mae clywed gan bartner blynyddoedd cynnar y **gellir cysylltu ag ef ac y gellir ymddiried ynddo yn atgyfnerthu neu'n meithrin cred ym mhwsigrwydd** darllen
- ♥ Mae gwybodaeth am fanteision darllen wedi'i **theilwra i'r hyn y mae teuluoedd yn meddwl amdano** ym mhob cam o'u datblygiad

“ Dw i’n meddwl ei bod hi’n ffordd dda iawn o annog mamau newydd i ddarllen i’w babanod. Fel mam newydd i fabi 10 wythnos oed, roeddwn i’n meddwl y byddwn i’n teimlo’n dwp yn darllen llyfr i’m babi, ond pan gefais y pecyn hwn, ystyriais roi cynnig arni ac roedd hi wrth ei bodd. Roedd hi’n cŵan ac yn gwenu drwy’r amser. ”

Rhiant/gofalwr Bookstart, Cymru

Ein cyrhaeddiad a’n heffaith

Bookstart i Fabanod

Yn 2024, cyrhaeddodd ni dros hanner miliwn o deuluoedd (90% o’r holl deuluoedd â babanod newydd) gyda **Bookstart i Fabanod**. Mae ein rhaglen genedlaethol hirhoedlog wedi’i chynllunio i gychwyn darllen teuluol ar y cyd ym mlwyddyn gyntaf bywyd pob babi drwy helpu teuluoedd i brofi adegau darllen rhyngweithiol a phleserus. Gan gyfuno llyfrau a chymorth a gwybodaeth darllen o ansawdd uchel sy’n briodol i’r oedran, â negeseuon a modelu ysbrydoledig sy’n meithrin hyder gan ymarferwyr, mae Bookstart i Fabanod yn cefnogi cerrig milltir datblygiad cynnar. Mae ein rhwydwaith helaeth o bartneriaid blynyddoedd cynnar (ymwelwyr iechyd yn bennaf, ond hefyd cofrestryddion a llyfrgellwyr) yn ymgysylltu â theuluoedd gyda Bookstart i Fabanod.

“ Rydym wrth ein bodd gyda’r pecynnau [Bookstart] hyn, rydym yn eu defnyddio ar gyfer darllen adeg amser gwely a gweithgareddau difyr yn ystod y dydd neu amser cael bath. ”

Rhiant/gofalwr Bookstart, Canolbarth Lloegr



Dywedodd **72% o’r teuluoedd** a holwyd fod Bookstart i Fabanod wedi gwneud iddynt deimlo’n fwy hyderus ynglŷn â darllen gyda’u plentyn.



Dywedodd **86% o rieni/gofalwyr** a ymatebodd i’n harolwg gwerthuso fod y llyfrau sydd wedi’u cynnwys yn y pecyn ymhlith y cyntaf maent yn eu prynu ar gyfer eu plentyn



Dywedodd **68% o’r teuluoedd** hyn fod Bookstart i Fabanod yn eu hannog i ddarllen a rhannu straeon yn fwy gyda’u plentyn nag y byddent fel arall.

2023/24 oedd ail flwyddyn **Bookstart i Blant Bach a Phlant cyn oed ysgol**, ein rhaglenni Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant 1–4 oed. Mae'r rhaglenni cenedlaethol sefydledig hyn yn helpu teuluoedd i gadw darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar, gan gefnogi datblygiad y blynyddoedd cynnar a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol. Drwy Bookstart i Blant Bach a Phlant cyn oed ysgol, cafodd 408,000 o blant 1–4 oed, 310,000 ohonynt o o deuluoedd incwm isel, gymorth darllen a llyfrau ac adnoddau o ansawdd uchel.



- Nododd 97% o deuluoedd a gymerodd ran mewn gweithgareddau gwerthuso eu bod **wedi mwynhau defnyddio llyfrau ac adnoddau blynyddoedd cynnar BookTrust**
- Mae 94% o deuluoedd y blynyddoedd cynnar yn nodi bod ein rhaglenni'n rhai **da, da iawn neu ardderchog**
- Sylwodd rhieni/gofalwyr fod rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust wedi gwneud gwahaniaeth i **sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu** eu plant:
 - Mae **70%** yn dweud bod eu plentyn **wedi dysgu geiriau newydd**
 - Mae **66%** yn dweud bod eu plentyn yn **talw mwy o sylw** pan fydd rhywun yn darllen iddo
 - Mae **59%** yn dweud bod eu plentyn wedi **siarad neu ryngweithio mwy**
- Mae **82% o deuluoedd incwm isel** sy'n ymgysylltu â'n rhaglenni Blynyddoedd Cynnar yn dweud eu bod **wedi dysgu gwahanol ffyrdd o rannu straeon gyda'u plant**
- Dywedodd 76% o deuluoedd a oedd yn ymwneud â rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust fod y rhaglenni wedi'u hannog i ddarllen mwy gyda'u plant. Dywedodd **84% o deuluoedd incwm isel** a oedd yn ymwneud â rhaglenni Blynyddoedd Cynnar BookTrust eu bod wedi'u hannog i ddarllen mwy gyda'u plant.



“ Mae bob amser yn gyfnod cyffrous i'r plant a'r rhieni pan fyddant yn cael pecyn BookTrust. Rydym yn cadw un o'r llyfrau yn y feithrinfa fel bod y plant yn gallu gwneud y cysylltiad rhwng y cartref a'r feithrinfa a gallu ailadrodd y stori eu hunain a'i rhannu â'u rhieni. ”

Partner dosbarthu Bookstart, Swydd Efrog a'r Humber, Lloegr

“ Roedd fy mab yn llawn cyffro i gael ei becyn darllen [Bookstart i Blant cyn oed ysgol] a gwnaethom ddechrau arni cyn gynted ag y gyrhaeddodd ni adref. Roedd e'n mwynhau siarad am y bwystfilod ac eistedd i lawr i wneud y tudalennau lliwio yn fawr iawn. ”

Rhiant/gofalwr Bookstart,
De-ddwyrain Lloegr

“ Mae hwn [Bookstart i Blant cyn oed ysgol] wedi fy annog i ddefnyddio llyfrau. Roeddwn i'n meddwl na fyddai gan fy mhlentyn 1 oed unrhyw ddiddordeb ond roedd hi wrth ei bodd [...] Mae sylw fy merch i'r llyfrau yn anhygoel ac mae hyn yn mynd i'w helpu i ddysgu cymaint! ”

Rhiant/gofalwr Bookstart,
Gogledd Iwerddon

“ Rydych yn agor y pecyn [Plant Bach Bookstart ac mae ysgrifennu ar yr holl ddarnau ac yn dweud wrtha i... gallwch chi ddarllen hyn, gwneud lleisiau doniol... Rhoddodd rywfaint o wybodaeth i chi a phethau gwahanol am sut i ddarllen. Nid yw hynny'n rhywbeth rydych chi'n ei wneud yn naturiol gyda'ch plant. Roeddwn i'n darllen yn arferol o'r blaen. Nawr dwi'n ei gwneud hi'n hwyl. Rwy'n gwneud y cymeriadau gwahanol. ”

Rhiant/gofalwr Bookstart,
Dwyrain Lloegr



Cymerodd 90% o lyfrgelloedd (2,568 i gyd) ran yn **Amser Stori BookTrust**. Mae ein rhaglen llyfrgelloedd blynyddoedd cynnar genedlaethol wedi'i chynllunio i ddod â theuluoedd i lyfrgelloedd yn aml am y tro cyntaf a'u cefnogi i ddod yn ymwelwyr rheolaidd. Mae teuluoedd yn profi sesiynau adrodd straeon grŵp difyr yn seiliedig ar lyfrau plant newydd o ansawdd uchel sydd wedi'u dewis yn arbennig i'w darllen yn uchel.

Ym mis Ebrill, gwnaethom ddathlu hud a phwysigrwydd rhannu straeon i blant ifanc yng Ngwobr Amser Stori BookTrust, a ddaeth â llyfrgelloedd, awduron a darlunwyr a rhanddeiliaid strategol ynghyd. Dyfarnwyd y Wobr i Gemma Cooper a Carrie Hennon am *Can you Tickle a Tiger?*, un o chwe Llyfr Amser Stori rhagorol BookTrust a rannwyd gan lyfrgelloedd a gymerodd ran gyda theuluoedd yn eu cymunedau.

Yng Nghymru, gwnaethon barhau i gyflwyno Pori Drwy Stori, ein rhaglen ddwyieithog ar gyfer plant oedran meithrin a derbyn. Wedi'i anelu at ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd, siarad a gwrando gan ddefnyddio adnoddau ffisegol a digidol i gefnogi Dysgu Sylfaen – gwnaethom gyrraedd dros 103,000 o blant a dosbarthu ychydig dros 32,000 o becynnau Cymraeg Blynyddoedd Cynnar Bookstart.

“ Mae'r adnoddau yn wych ac yn ffordd ardderchog o ymgysylltu â theuluoedd a sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd pob cartref. ”

Partner dosbarthu Bookstart, Cymru

🔍 Astudiaeth achos

BookTrust a theuluoedd y blynyddoedd cynnar

“Mae gan Brent un o'r lefelau tlodi uchaf yn Llundain. Ganwyd 45% o'r trigolion y tu allan i'r DU ac mae 50% yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Rydym yn ymwybodol iawn bod yna lawer o deuluoedd o hyd heb unrhyw ymwybyddiaeth o lyfrgelloedd o gwbl. Mae angen allgymorth wedi'i dargedu.



Rydym wedi defnyddio strategaeth blynyddoedd cynnar wedi'i thargedu BookTrust ar gyfer y teuluoedd mwyaf anghenus. Gwnaethom weithio mewn partneriaeth â thîm blynyddoedd cynnar Brent i gyfuno rhoi pecynnau BookTrust yn anrhegion â sesiynau adrodd straeon. Mae hyn bellach yn digwydd mewn wyth canolfan llesiant teuluol i wella'r nifer sy'n defnyddio'r pecynnau llyfrau.

Mae hefyd yn annog teuluoedd i archwilio'r gwasanaethau blynyddoedd cynnar lleol sydd ar gael iddynt, yn ogystal ag aelodaeth o lyfrgell a benthyca llyfrau. Y ffocws yw dangos i deuluoedd fod rhannu straeon yn bwysig i ddysgu a datblygiad plentyn – ond hefyd gymaint o hwyl y gall fod.”

Sarah Smith, Rheolwr Datblygu Llyfrgelloedd,
Bwrdeistref Brent yn Llundain

Ochr yn ochr â'n rhaglenni ar raddfa genedlaethol, gwnaethom barhau i ddysgu ac arloesi, er enghraifft archwilio sut i ymgysylltu â theuluoedd cynenedigol i ymgorffori darllen mewn arferion. Gwnaethom arbrofi gyda phartneriaethau a llwybrau cyflawni newydd i'n helpu i gyrraedd mwy o deuluoedd mewn angen – er enghraifft drwy wasanaethau teuluoedd carchardai a sefydliadau cymunedol y trydydd sector. Ym mis Chwefror, lansiodd BookTrust a CBeebies Bedtime Stories bartneriaeth gyffrous newydd i greu corneli darllen etifeddol CBeebies ac ymgysylltiad Amser Stori BookTrust mewn llyfrgelloedd ledled y DU. Yn y prosiect hwn, gwnaethom brofi ffyrdd newydd o ysbrydoli cariad at ddarllen ar y cyd, gyda ffocws ar ardaloedd sydd heb ddigon o wasanaethau.



Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i gefnogi babanod, plant bach a phlant cyn oed ysgol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gyda rhaglenni sy'n seiliedig ar y dystiolaeth gryfaf ar sut i greu profiadau darllen cadarnhaol a rennir. Byddwn yn cynnal ein lefelau cyrhaeddiad wrth i ni geisio dyfnhau ein heffaith ymhellach. Byddwn yn parhau i archwilio llwybrau dosbarthu newydd i gyrraedd teuluoedd incwm isel yn y ffordd orau, drwy Bookstart i Blant Bach, Bookstart i Blant Cyn Oed Ysgol ac Amser Stori BookTrust.

Maes ffocws 2: Plant o gefndiroedd teulu agored i niwed

Defnyddio darllen ar y cyd i ddod a mwynhad a sefydlogrwydd i blant agored i niwed

Trosolwg

Mae darllen ar y cyd yn gynnar yn bwysig i bob plentyn. [Pan fo babanod neu blant yn profi aflonyddwch neu anawsterau gartref, gall darllen ar y cyd fod yn arbennig o drawsnewidiol](#) (Saesneg yn unig). Mae'n darparu ffordd i rieni a gofalwyr gychwyn y math o ryngweithiadau meithringar sy'n gwella cyweiriad ac ymlyniad, gall wella'r berthynas rhwng y rhiant neu'r gofalwr a'r plentyn a gwneud i blant deimlo'n ddiogel. Gall trefn ddarllen hefyd helpu plant i reoleiddio a chysylltu â'u hemosiynau a meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gysylltu ag eraill. Mewn sawl ffordd gall darllen weithredu fel ffactor amddiffynnol yn erbyn yr anawsterau y mae rhai plant yn eu profi. Mae llyfrau cynrychioliadol yn caniatáu i blant archwilio agweddau ar eu bywydau eu hunain nad ydynt efallai wedi'u gweld yn cael eu cynrychioli'n gywir nac yn gadarnhaol o'r blaen, gan gefnogi hunaniaeth.

Mae BookTrust wedi ymrwymo i gefnogi plant o gefndiroedd teulu agored i niwed i brofi'r manteision uniongyrchol a thymor hwy hyn o ddarllen trwy ein rhaglenni hirsefydlog a datblygu dulliau newydd ar gyfer y plant hyn.

“Diolch yn fawr iawn am y pecynnau. Dw i wrth fy modd yn eu cael ac yn darllen a defnyddio beth sydd y tu mewn i bob un.”

Plentyn yn derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau

“Rydyn ni wedi mwynhau'r holl gynnwys yn fawr iawn... mae wedi ennyn diddordeb yn ei ddarllen, ac mae bellach yn gofyn yn rheolaidd am ddarllen cyn mynd i'r gwely.”

Rhiant/gofalwr plentyn yn cael parseli Clwb Blwch Llythyrau

“Roedd [hi] wedi synnu'n fawr, mae hi wedi dechrau darllen un o'r llyfrau ac roedd hi wrth ei bodd i gael llythyr gan ddarlunydd go iawn. Diolch am bopeth.”

Rhiant/gofalwr plentyn yn cael parseli Clwb Blwch Llythyrau

Ein cyrhaeddiad a'n heffaith

Yn ystod 2023/24, gwnaethom barhau i adeiladu ar ein hanes hir o gefnogi plant o gefndiroedd teulu agored i niwed drwy Glwb Blwch Llythyrau, ein rhaglen ddarllen ddwys ar gyfer plant mewn gofal maeth hirdymor. Drwy bartneriaethau ag ysgolion cynradd ac uwchradd, ysgolion rhithwir a'r Rhwydwaith Maethu yng Ngogledd Iwerddon, cafodd 11,439 o blant barseli lluosog gan y Clwb Blwch Llythyrau eleni.



Nododd **96% o blant** a gymerodd ran yn y gwerthusiad Clwb y Blwch Llythyrau eu bod yn hoffi neu'n wrth eu bodd â'r Clwb Blwch Llythyrau



Nododd **68% o'r plant hyn** eu bod yn darllen mwy ar eu pennau eu hunain ar ôl cael parseli Clwb Blwch Llythyrau

Yn 2023/24 hefyd, profodd BookTrust dulliau newydd o weithio gyda phlant mewn teuluoedd maethu, teuluol a mabwysiadol, gan dreialu cynnig darllen a rennir newydd. Gwnaethom weithio gyda thros 400 o blant a gofalwyr i ddatblygu dulliau peilot newydd i lywio gwaith ar raddfa fwy yn y dyfodol a datblygwyd partneriaeth newydd gyda'r sefydliad Kinship fel rhan o'r contract cymorth rhwng perthnasau a gofalwyr a ariannwyd gan yr Adran Addysg.

Rydym yn archwilio sut y gall BookTrust gefnogi teuluoedd sy'n berthnasau i ddarllen gyda phlant yn eu gofal. Yn ein dysgu dylunio, dywedodd rhieni a gofalwyr wrthym beth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu plant i ffynnu a ble mae darllen yn ffitio ym mywyd teuluol. Rydym nawr yn adeiladu'r mewnwelediadau hyn i'n gwaith dylunio.

Mae rhieni a gofalwyr eisiau:

- Darparu ymdeimlad o berthyn
- Helpu plant i deimlo'n gartrefol ac yn ddiogel
- Helpu plant i ymdopi ag emosiynau anodd
- Datblygu arferion iach a defodau teuluol

“ Mae [Clwb Blwch Llythyrau] wedi fy helpu i ddeall bod mewn gofal maeth. ”

Plentyn yn derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau



Astudiaeth achos:

BookTrust a Phlant o gefndiroedd teulu agored i niwed

"Dw i'n gweld bod llyfrau'n wirioneddol fuddiol ar gyfer siarad am emosiynau. Mae llawer o blant maeth naill ai'n cael trafferth delio â'u hemosiynau neu eu deall. Dw i'n meddwl mai'r ffordd orau o gael sgwrs â phlentyn yw drwy stori. Dydw i ddim yn glynu wrth y stori honno yn unig pan fydda i'n darllen. Rydw i'n ei ddatod ac yn siarad amdano â'r plentyn hwnnw.

Rwy'n gwybod faint o waith sy'n mynd i mewn i ddewis llyfrau Clwb Blwch Llythyrau BookTrust. Mae rhai o'r llyfrau rydym wedi'u dewis yn ymwneud â phlant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd. Mae gwybod bod cymeriadau mewn llyfr wedi cael yr un profiadau bywyd yn bwysig i blant mewn gofal."

Amanda, gofalwr maeth ar banel dethol Clwb Blwch Llythyrau BookTrust

 **Mae [Clwb Blwch Llythyrau] wedi fy helpu gyda fy iechyd meddwl."**

Plentyn yn derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau

Beth nesaf?

Byddwn yn cynnal darpariaeth a chyrhaeddiad ein rhaglen Clwb Blwch Llythyrau, ar gyfer plant mewn gofal maeth hirdymor a phlant dan anfantais lle mae ysgolion yn teimlo y byddent yn elwa o gymorth dwys.

Byddwn yn darparu cymorth darllen i blant sydd mewn gofal gan berthnasau, fel rhan o'n partneriaeth â'r elusen Kinship, ac yn dyfnhau ein dysgu am y ffyrdd gorau o gefnogi'r gofaluwr hyn i ymgorffori arferion darllen gartref. Gan adeiladu ar waith yn 2023/24, ein ffocws nesaf fydd lansio rhaglen ddarllen ar y cyd newydd ar gyfer plant agored i niwed 0–7 oed a ddechreuon ni ei chyflwyno i deuluoedd y blynyddoedd cynnar yn hydref 2024.

Maes ffocws 3: Cymorth ymarferwyr

Cefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen teuluol ar y cyd

Trosolwg

Mae gwaith BookTrust i gyflawni newid ymddygiad tuag at ddarllen mewn teuluoedd yn dibynnu ar sgiliau ac ymrwymiad partneriaid sy'n gweithio gyda theuluoedd ac y mae teuluoedd yn ymddiried ynddynt. Mae ein partneriaid, gan gynnwys ymwelwyr ieuchyd, llyfrgellwyr plant, addysgwyr blynyddoedd cynnar, gweithwyr cymunedol eraill ac athrawon yn rhan o'n rhwydwaith helaeth ar draws pob rhan o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae BookTrust wedi gweithio'n agos gyda'r partneriaid hyn ers degawdau ac rydym yn parhau i adeiladu ein rhwydwaith.

Mae'r rhyngweithiadau sydd gan deuluoedd ag ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn bwysig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o fanteision darllen a modelu sut i rannu straeon. Mae ein hymchwil yn dangos bod teuluoedd sy'n cael cymorth cynnar i ddarllen gyda'u babi – er enghraifft gan ymwelwyr ieuchyd a gweithwyr proffesiynol eraill – yn fwy tebygol o ddarllen gyda'i gilydd o fisoedd cyntaf bywyd. Pan fydd ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yn annog rhieni/gofalwyr i rannu straeon a dangos iddynt sut i wneud hynny, maent yn fwy brwdfrydig ac yn fwy hyderus.



Taflu goleuni: BookTrust – Cyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol

Mae ein model blynyddoedd cynnar yn cyfuno rhaglenni cenedlaethol â rhwydweithiau lleol i wneud argraff ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Sut mae'n gweithio:

- 📖 Mae ein rhaglenni wedi'u **hymgorffori yn y ddarpariaeth gwasanaethau leol** sy'n helpu i sicrhau eu cynaliadwyedd a'u darpariaeth, yng nghyd-destun cefnogaeth ehangach partneriaid i deuluoedd
- 📖 Mae'r **hyblygrwydd sydd wedi'i gynllunio yn ein rhaglenni** yn golygu y gellir eu teilwra i gyd-fynd ag anghenion a lleoliadau gwahanol, sy'n allweddol i gyflawni effaith ar deuluoedd ar raddfa fawr.
- 📖 Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â **rhwydweithiau lleol** i addasu, dod o hyd i gyfleoedd newydd a chyrraedd ymhellach i gymunedau
- 📖 Mae ein **gwerthusiad dulliau cymysg, graddfaol**, yn dangos bod ein rhaglenni sy'n seiliedig ar ymchwil, a gynlluniwyd mewn partneriaeth ag ymarferwyr, yn cyflawni eu blaenoriaethau ar gyfer y teuluoedd maent yn gweithio gyda nhw. Mae'r gwaith hwn hefyd yn ein helpu i ddeall problemau sy'n wynebu partneriaid cyflawni ac i amlygu cyfleoedd i gryfhau'r effaith ar deuluoedd.

“ Dw i wrth fy modd â'r pecynnau a'r cardiau gwybodaeth sy'n mynd ochr yn ochr â nhw – maen nhw'n wych wrth weithio gyda theuluoedd. Mae manteision rhannu llyfrau a straeon yn neges mor bwysig i'w chyfleu yn y blynyddoedd cynnar ac mae'n wych gallu gadael cwpl o lyfrau gyda theuluoedd nad oes ganddynt unrhyw lyfrau eraill yn y tî yn aml. ”

Partner dosbarthu Bookstart, Gogledd Iwerddon



“ Da iawn BookTrust am roi teuluoedd wrth wraidd popeth a wnewch ar gyfer eu teithiau llythrennedd. Mae'r pecynnau adnoddau gwyh hyn am ddim yn fy helpu i fel ymarferydd i hyrwyddo pa mor bwysig yw cael sgiliau llythrennedd cynnar er mwyn helpu babanod a phlant ifanc i gyfathrebu a datblygu eu dysgu. ”

Partner dosbarthu Bookstart, Swydd Efrog a'r Humber

Ein cyrhaeddiad a'n heffaith

Mae BookTrust yn cefnogi partneriaid i ymgysylltu â theuluoedd, gan ysbrydoli mwynhad a hyder wrth rannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd a'u helpu i ymgorffori arferion darllen cadarnhaol. Yn ystod 2023/24, gwnaethon weithio gyda'n rhwydwaith anhygoel o bartneriaid sy'n darparu dros 6,000 o lwybrau i deuluoedd, ym mhob math o gymunedau ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar gyfer rhaglenni Bookstart i Blant Bach a Phlant Cyn- Oed Ysgol, roedd y gwaith hwn yn cynnwys dros 120 o ganolfannau teuluol a bron i 4,000 o feithrinfeydd.

Gwnaethom ddarparu bron i 1,500 o warbaciau Storiwyr i'n partneriaid dosbarthu blynyddoedd cynnar. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys set o lyfrau wedi'u curadu'n arbenigol, gwybodaeth am gymorth darllen, gweithgareddau a phropiau wedi'u cynllunio i arwain plant a theuluoedd ar anturiaethau adrodd straeon.



Mae **95% o bartneriaid** yn teimlo bod ein rhaglenni Blynyddoedd Cynnar yn **eu cefnogi i ymgysylltu â rhieni a gofalwyr**



Mae **95% o bartneriaid** yn ein rhwydwaith blynyddoedd cynnar yn dweud bod **cynigion Blynyddoedd Cynnar BookTrust** yn effeithiol ar gyfer cael teuluoedd â phlant ifanc i ddarllen gyda'i gilydd



Mae **93% o bartneriaid** yn ein rhwydwaith blynyddoedd cynnar yn dweud bod adnoddau **BookTrust o ansawdd uchel**

Dros y flwyddyn gwnaethom hefyd barhau i esblygu ein hadnoddau digidol ar gyfer ymarferwyr, gan ddarparu offer, ysbrydoliaeth a thystiolaeth i'w cefnogi yn eu gwaith. Gwnaethom ddatblygu porth ar-lein newydd i symleiddio archebu a monitro, gan ei gwneud hi'n haws i bartneriaid weithio gyda BookTrust a gwella data i gefnogi ein gwaith.

Mae ymgysylltu'n rheolaidd ag addysgwyr y blynyddoedd cynnar ac addysgwyr eraill yn ffocws craidd i BookTrust. Drwy gydol y flwyddyn gwnaethon gysylltu â'n rhwydweithiau cenedlaethol drwy gyfres o sianeli a digwyddiadau. Ym mis Tachwedd, cynhaliwyd ein Wythnos Ddathlu Rhannu Straeon genedlaethol gyntaf a oedd yn cynnwys dros 870 o bartneriaid y blynyddoedd cynnar, a chofrestrodd dros 500 o leoliadau ar gyfer Amser Rhigwm Mawr Cymru. Cynhaliwyd tair gweminar partner, gyda thros 500 o bartneriaid y blynyddoedd cynnar yn bresennol, a lansiwyd tair [**sesiwn frifffio ymchwil**](#) (Saesneg yn unig) newydd ar ddarllen yn y blynyddoedd cynnar. Gwnaethom barhau i wella ein dealltwriaeth o sut y gallwn gefnogi ein partneriaid, ac mae hyn wedi llywio camau cynnar datblygu hyfforddiant newydd i ymarferwyr, i wella eu sgiliau a'u hyder yn y ffyrdd gorau o helpu teuluoedd i rannu straeon.



Gwnaeth hi [partner rhoi Bookstart fel anrheg] ei arddangos. Mae hi'n galonogol iawn ... i wneud gweithgareddau gyda'ch plentyn a gwrando arno a cheisio ei annog. ”

Rhiant/gofalwr Bookstart, Cymru

🔍 Astudiaeth achos:

BookTrust mewn systemau cymorth teulu integredig

Mae Canolfan Blant Rookery, rhan o rwydwaith Canolfannau Teulu a chanolfannau plant Birmingham, yn ymgorffori amrywiol raglenni BookTrust yn y cymorth wyneb yn wyneb y mae'n ei chynnig i deuluoedd. Mae'r tîm o ymarferwyr blynyddoedd cynnar wedi bod yn defnyddio'r rhaglen [Amser Stori BookTrust](#) dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod ei sesiynau Aros a Chwarae. Ar ddiwedd y chwe wythnos, mae'n cyflwyno [Bookstart i Blant Bach](#), sy'n cynnwys llyfrau ac adnoddau i deuluoedd fynd adref â nhw.

"Mae'r sesiynau hyn yn ymwneud â rhieni'n dod i mewn ac yn deall sut y gallant gefnogi eu plant gyda'u lleferydd," meddai Marie Holmes, Gweithiwr Iaith Drwy Chwarae i Spurgeons, sy'n arwain sesiynau i deuluoedd yng Nghanolfan Plant Rookery. "Mae llawer o'n gwaith yn cael ei gefnogi gan BookTrust. Rydym wedi bod yn defnyddio Amser Stori BookTrust ac, oherwydd ein bod ni'n gweithio gyda llawer o blant 1-2 oed, rydym wedi bod yn defnyddio pecynnau Bookstart i Blant Bach gyda theuluoedd. Maent wrth eu bodd ag e, mae mor berffaith ar gyfer ein grwpiau ni."

Rydym yn cynnal sgrinio lleferydd ac iaith ar gyfer pob plentyn yn ystod y sesiwn gyntaf. Gyda'r sgrinio hwnnw, mae rhieni'n cael taflenni adnoddau i fynd adref â nhw a gweithio drwyddynt. Rydym yn ymgorffori llyfrau BookTrust i Blant Bach yn yr adnoddau hyn i ddangos i rieni sut y gallant rannu'r llyfrau hyn â'u plentyn. Yn ogystal â chanu a rhigymau, mae straeon yn ffordd wych o hyrwyddo lleferydd a chyfathrebu. Mae BookTrust wedi ein helpu ni'n fawr gyda hynny."

Marie Holmes, Gweithiwr Iaith Drwy Chwarae, Spurgeons

Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i ddarparu miloedd o adnoddau Storiwyr i ddiwallu anghenion rhwydwaith cynyddol amrywiol o bartneriaid cyflawni, ac i ddatblygu ein cefnogaeth a'n hadnoddau digidol ar gyfer partneriaid ac ymarferwyr. Gan adeiladu ar ddysgu a chynllunio yn 2023/24 byddwn yn bwrw ymlaen â datblygiad model hyfforddi ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar.

Gan edrych ymlaen at ddatblygiadau yn y dyfodol, byddwn yn nodi'r elfennau mwyaf effeithiol o ran cyflawniad partneriaid fel y gallwn ddarparu cymorth gwell fyth yn ein gwaith yn y dyfodol ar gyfer y pethau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ymddygiadau darllen teuluoedd.

Maes ffocws 4: Ysgolion

Cefnogi ysgolion i feithrin cariad at ddarllen

Trosolwg

Mae darllen ar y cyd yn parhau i weithredu fel catalydd ar gyfer datblygiad plant ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae dod i gysylltiad ag amgylchedd llawn straeon yn hybu sgiliau siarad a gwrando plant, eu gwybodaeth am y byd a'u datblygiad cymdeithasol, yn ogystal â chael effaith sylweddol ar eu gallu i ddysgu sut i ddarllen. Mae [ein tystiolaeth](#) (Saesneg yn unig) yn dangos bod darllen er mwynhad yn lleihau pan fydd plant yn dechrau yn yr ysgol a bod y dirywiad hwn yn parhau drwy gydol plentynod. Yn 2023/24, ein ffocws ar gyfer ysgolion a phlant oedran ysgol oedd cefnogi athrawon i annog ymgysylltiad cynnar â darllen, yn enwedig yn yr amgylchedd dysgu cartref, a helpu plant hŷn i ddatblygu eu hunaniaeth fel darllenwyr annibynnol.

“ Rydym wrth ein bodd â Bookbuzz ac yn meddwl ei bod hi mor bwysig bod pobl ifanc yn cael y cyfle i ddewis llyfr sy'n perthyn iddyn nhw. Ni all rhai o'n myfyrwyr anghofio'r ffaith ei fod yn eiddo iddyn nhw i'w gadw; mae'n adeg mor bwysig iddyn nhw. Diolch! ”

Partner dosbarthu Bookbuzz,
Gorllewin Canolbarth Lloegr



Ein cyrhaeddiad a'n heffaith

Ysgolion cynradd

Lansiwyd ein platfform newydd ar gyfer athrawon ysgolion cynradd, gan ddarparu cymorth ac arweiniad ar sut i annog teuluoedd i barhau i rannu straeon gartref wrth i blant ddechrau yn yr ysgol. Fel rhan o'n gwaith i sicrhau bod modd cyfeirio at lyfrau sy'n helpu athrawon yn eu gwaith, gwnaethom barhau i rannu adolygiadau ac argymhellion llyfrau helaeth, gan ddarparu copi o'n Canllaw Llyfrau Gwych 2023 i bob ysgol gynradd yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Yng Ngogledd Iwerddon, gwnaethom ddosbarthu'r Prosiect P1, a ariennir gan yr Awdurdod Addysg ac a ddatblygwyd gyda'r nod o annog plant i dreulio ychydig o amser bob dydd gyda'u teuluoedd yn darllen er mwynhad. Aeth taith awduron BookTrust Gogledd Iwerddon (a gefnogir gan Gyllid Prosiect y Loteri drwy Gyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon) â phum awdur/darlunydd enwog i ysgolion mewn cymunedau nad ydynt fel arfer yn ymwneud â'r celfyddydau, gan arwain at 2,086 o ddisgyblion yn cwrdd â rhai o'r crewyr gorau mewn llenyddiaeth plant ac yn cael eu hysbrydoli ganddynt.

“Roedd Sophy yn wych gyda'r plant. Hoeliodd eu sylw am dros awr. Dychwelodd fy nosbarth i'r ysgol yn llawn cyffro gan ddweud cymaint roedden nhw wedi mwynhau'r bore [Cynrychiolwyr BookTrust].”

Partner dosbarthu BookTrust,
Gogledd Iwerddon



Gwyddom fod angen dewis o lyfrau perthnasol o ansawdd uchel ar blant i ddatblygu eu dewisiadau a'u hunaniaeth fel darllenwyr, ac i aros yn llawn cymhelliant i ddarllen. Mae gweld eu hunain a'u bywydau wedi'u cynrychioli mewn straeon a llyfrau yn bwysig. Dyma pam rydym yn cefnogi ystod amrywiol o awduron a darlunwyr a hyrwyddo llyfrau cynhwysol sy'n cynrychioli cymeriadau o gefndiroedd a safbwyntiau amrywiol. Y llynedd gwnaethom gynyddu'r prosiect cynrychiolwyr BookTrust.

Gwnaethom gyflwyno 54,000 o blant mewn 1,800 o ysgolion i brofiadau darllen, crewyr lliw a'u gwaith drwy ymweliadau ag ysgolion cenedlaethol ar-lein, gan ddarparu offer i gefnogi athrawon i ddod â'r profiadau hyn yn fyw yn eu hystafelloedd dosbarth.

Ysgolion uwchradd

Y llynedd gwnaeth mwy na chwarter miliwn o blant (259,771) ym Mlynnyddoedd 7 ac 8 ymgysylltu â Bookbuzz. Mae'r rhaglen hon, sy'n helpu ysgolion uwchradd i annog plant 11–13 oed i barhau i ddarllen er mwynhad, yn rhoi dewis a pherchnogaeth i fyfyrwyr dros yr hyn y maent yn ei ddarllen – ffactorau pwysig mewn darllen annibynnol.

🔍 Astudiaeth achos:

BookTrust ac ysgolion

"Gall y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd fod yn gyfnod heriol i ddisgyblion. Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n gwneud iddynt deimlo'n ddiogel ac yn rhan o gymuned. Mae Addysgeg Darllen er Mwynhad yn sôn am ddarllen fel profiad cymdeithasol a phwysigrwydd cael y gymuned honno o ddarllenwyr. Mae Bookbuzz wir yn ein helpu i wneud hynny.

Bookbuzz yw'r enw perffaith ar ei gyfer, gan fod y cyffro hwnnw am lyfrau yno pan fo'n amser Bookbuzz. Gall staff gael sgysiau am: 'Ar ba bennod ydych chi?' Oeddech chi wrth eich bodd â'r darn hwnnw? Wnaethoch chi weld hynny'n digwydd? Rydych chi'n cael siarad â myfyrwyr ar y lefel gymdeithasol, fwy anffurfiol hon. Mae hyn wir yn tanio'r cariad hwnnw at ddarllen, pan nad chi yn unig sy'n darllen mewn cornel yn dawel. Mae'n rhywbeth y gallwch chi ei rannu â phobl eraill."

Emma, Athrawes Saesneg, Ysgol y Celfyddydau a'r Cyfryngau, Islington





“ Mae’r plant wrth eu bodd ag ef! Maent yn poeni eu hathrawon am pryd fydd y llyfrau’n cyrraedd am wythnosau ar ôl iddynt gwblhau eu dewisiadau. ”

Partner dosbarthu Bookbuzz,
Dwyrain Lloegr

“ Mae [Bookbuzz] wedi fy nghymhell i ddarllen yn amlach a dewis llyfrau na fyddwn fel arfer yn dewis eu darllen. ”

Myfyriwr Bookbuzz

Beth nesaf?

Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion cynradd i ymgysylltu â’n hadolygiadau llyfrau a’n hadnoddau i gael plant i ddarllen, gan gynnwys gyda rhieni a gofalwyr gartref. Byddwn yn parhau i gynnal ymweliadau rhithwir a dosbarthu llyfrau cynrychioliadol o ansawdd uchel fel rhan o BookTrust Represents.

Rydym hefyd wedi bod yn dysgu gydag athrawon a disgyblion er mwyn helpu i lywio ein gwaith yn y dyfodol mewn ysgolion. Yn ogystal â pharhau i gyrraedd plant ym Mlynnyddoedd 7 ac 8 drwy Bookbuzz, rydym, er enghraifft, yn datblygu ac yn treialu Pecyn Llyfrgell Ysgol newydd a fasnachir i ddarparu ystod o lyfrau newydd o ansawdd uchel i ysgolion uwchradd sy’n addas ar gyfer plant yng nghyfnod allweddol 3.

Byddwn yn cefnogi Bardd Plant Waterstones, Frank Cottrell-Boyce, i hyrwyddo pwysigrwydd darllen, creadigrwydd ac adrodd straeon plant, a hawl pob plentyn i fwynhau llyfrau a straeon.

Uchafbwyntiau eraill yn 2023/24

Yn ogystal â'n pedwar maes allweddol o effaith, roedd 2023/24 yn cynnwys cyfres o weithgareddau BookTrust eraill, a phob un yn gysylltiedig â chael plant i ddarllen. Rydym yn crynhoi rhai o'r rhain yma.

Ebrill 2023

Enillodd Can You Tickle a Tiger? gan

Gemma Cooper
(Bobbie Brooks)

a'r darlunydd

Carrie Hennon **Wobr Amser Stori 2023**

(Saesneg yn unig) BookTrust. Mae'r Wobr, nodwedd allweddol o raglen llyfrgelloedd Amser Stori BookTrust, yn dathlu'r llyfrau newydd gorau i gael teuluoedd â phlant 0–5 oed i ddarllen gyda'i gilydd.



Mai 2023

Ym mis Mai cyhoeddwyd y cyntaf yn ein cyfres o friffiau ymchwil blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio ar **arferion darllen plant yn ystod y blynyddoedd cynnar** (Saesneg yn unig).

Mae hwn, a'n briffiau ymchwil darllen plant eraill ar gael **yma** (Saesneg yn unig).

Mehefin 2023

Gwnaethom gynnal **cyfarfod bord gron yn Leeds** (Saesneg yn unig) i hyrwyddo cymorth darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar. Ymunodd **Maer Gorllewin Swydd Efrog, Tracy Brabin**, a **Maer De Swydd Efrog, Oliver Coppard**, a swyddogion o **Gyngor Dinas Leeds, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Prifysgol Sheffield Hallam a Chymdeithas Llyfrgellwyr Hŷn Plant ac Addysg** â ni.

Gwnaethom ddathlu ein Prif Weithredwr, **Diana Gerald** (Saesneg yn unig), yn cael MBE yn Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin, i gydnabod gwasanaethau i Ddarllen a Llenyddiaeth Plant.



Gorffennaf 2023

Cyhoeddwyd canfyddiadau gwerthuso o ail flwyddyn (2022-23) y rhaglen **Amser Stori BookTrust** (Saesneg yn unig) i lyfrgelloedd a **rhestr fer** Gwobr Amser Stori 2024.

Awst 2023

Cyhoeddwyd **nodwedd** (Saesneg yn unig) â'r awdur **Patrice Lawrence** ar bwysigrwydd **adlewyrchu teuluoedd amrywiol** mewn llyfrau plant i ysgogi ymgysylltiad plant â darllen.

Gwnaethom gyhoeddi stori ar rôl llyfrau wrth gefnogi sgysiau am emosiynau, yn enwedig i blant o gefndiroedd teulu agored i niwed. Dyma un canlyniad bwriadedig ein **rhaglen Clwb Blwch Llythyrau** a ddyfarnwyd eleni fel adnodd a gafodd ganmoliaeth uchel yng **Ngwobrau Teach Primary 2024**.

Medi 2023



Gwnaethom ffarweli â'n Hysgrifennydd Preswyl, **SF Said**, a chroesawu **Michelle Robinson** (Saesneg yn unig) i'r rôl.

Gwnaethom gyhoeddi ein cydweithrediad â theuluoedd maeth o **St Christopher's Fellowship** (Saesneg yn unig), yn cydweithio ar gyfer cyfres o weithdai er mwyn helpu i ddylunio ein rhaglen ddarllen newydd ar

Hydref 2023

Gwnaeth BookTrust weithio mewn partneriaeth â **Phrifysgol Exeter, y Gymdeithas Farddoniaeth a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol** ar **Uwchgynhadledd Adrodd Straeon** (Saesneg yn unig) gyntaf y DU. Roedd hyn yn rhan o **bartneriaeth RENEW** (Saesneg yn unig) i greu adnewyddiad bioamrywiaeth mesuradwy a mwy o fynediad at fioamrywiaeth drwy lenyddiaeth a barddoniaeth plant. Drwy'r gwaith hwn rydym yn parhau i archwilio'r rôl y gall llyfrau ei chwarae wrth gefnogi gwell dealltwriaeth o fioamrywiaeth, a sut y gall natur ysbrydoli plant i ddarllen.

Tachwedd 2023

Gwnaethom gynnal ein **cynhadledd flynyddol i bartneriaid blynyddoedd cynnar BookTrust Cymru**, gan ganolbwyntio eleni ar gefnogi tadau i helpu plant i brofi manteision darllen er mwynhad yn y blynyddoedd cynnar. Ymunodd siaradwyr o Sefydliad y Tadolaeth, Llyfrgelloedd Caerdydd, Home-Start Cymru, Tadau Llyfr Story ac **Alex Wharton** (Bardd Plant Cymru) â ni.

Rhagfyr 2023

Gwnaethom ddathlu **buddugoliaeth yng Ngwobrau Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad** (Saesneg yn unig): gwobr MRS AURA am ysgogi dealltwriaeth yn ein gwaith yn y blynyddoedd cynnar.

Gwnaethom gynnal ein **hymgyrch codi arian y Nadolig** (Saesneg yn unig) i ddod â hud straeon i blant sy'n byw mewn tlodi a'r rhai o gefndiroedd teulu agored i niwed.



Ionawr 2024

Cefnogodd **Llywydd BookTrust Syr Michael Morpurgo**, pob un o 12 Enillydd Plant Waterstones presennol a blaenorol a'n rhwydwaith ehangach o bartneriaid cyflwyno a chreadigol lansiad **'Darllen Gyda'n Gilydd, newid bywydau plant'** (Saesneg yn unig) (gweler tudalen 16 am ragor o wybodaeth).



Chwefror 2024

Lansiwyd ein ein **Harolwg Partneriaid BookTrust** newydd fel cynllun peilot yn ein Parthau Dysgu. Mae'r gweithgaredd dysgu pwysig hwn yn rhan o'n hymrwymiad i ddeall blaenoriaethau, profiadau ac awgrymiadau ein rhwydwaith anhygoel o bartneriaid cyflawni.

Mawrth 2024

Gwnaethom ffarwelio â Michelle Robinson a chroesawu **Rashmi Sirdeshpande** (Saesneg yn unig) fel ein Hysgrifennydd Preswyl newydd.

Drwy gydol y flwyddyn...

Gwnaethom gefnogi **sefydliadau ledled y byd** sy'n ceisio gwella ymddygiadau darllen. Gwnaethom ymgynnull, partneru a rhannu arferion gorau drwy:

- **EURead** (Saesneg yn unig) (35 o aelodau, 23 o wledydd)
- **Global Network** (Saesneg yn unig) (28 o aelodau, 25 o wledydd)

Rydym hefyd wedi cychwyn y Rhwydwaith Ymchwilwyr rhyngwladol i rannu dealltwriaeth, tystiolaeth ac arferion gorau ar ddarllen plant.

Drwy gydol y flwyddyn...

Gwnaethom gefnogi **Joseph Coehlo** drwy ei dymor cyffrous fel Bardd Plant Waterstones. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys Promptiau Barddoniaeth, lle dathlodd bŵer barddoniaeth ym mhob ffurf gyda fideos wythnosol, Bookmaker Like You, yn annog plant i weld eu hunain fel gwneuthurwr llyfrau, a Marathon y Llyfrgell, cenhadaeth bersonol Joseph i ymuno â llyfrgell ym mhob awdurdod lleol yn y DU.

Cyfeiriadau a methodoleg

Mae BookTrust yn cynnal gwaith ymchwil a gwerthuso helaeth gyda theuluoedd a phlant. Mae'r ymchwil hwn yn llywio ein dealltwriaeth o rôl darllen ym mywydau teuluoedd, arferion darllen teuluoedd a phlant, a'r rhwystrau a'r cymhellion y maent yn eu hwynebu. Yn ein gwaith gwerthuso rydym yn ceisio adborth yn rheolaidd gan deuluoedd a phartneriaid drwy arolygon a sgysiau manwl. Mae gwaith ymchwil a gwerthuso BookTrust a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn cynnwys:

	Gweithgaredd dysgu	Maint a sampl y gynulleidfa
Bookstart i Fabanod Gwerthusiad (2023–24)	Arolwg ar-lein o rhieni/gofalwyr yn cael Bookstart i Fabanod	197 o rieni/gofalwyr cymryd yr arolwg yn 2023–24
Gwerthusiad (2023–24) Bookstart i Blant Bach (1–2 oed) a Bookstart i Blant Cyn Oed Ysgol (3–4 oed)	Ymchwil dulliau cymysg Bookstart i Blant Bach a rhaglenni Bookstart i Blant Cyn Oed Ysgol	339 o rieni/gofalwyr a 176 o bartneriaid cyflawni yn cymryd rhan yn y rhaglen a chwblhau'r arolwg yn 2023–24
Blwch Llythyrau BookTrust Gwerthuso'r Clwb (2023–24)	Arolwg papur o blant yn cael Blwch Llythyrau	306 o blant 6–14 oed

Cyfyngiadau:

Ar draws ein holl waith gwerthuso, rydym yn clywed gan grwpiau amrywiol o deuluoedd a phartneriaid. Fodd bynnag, fel gyda phob math o waith gwerthuso, ni allwn fod yn sicr bod barn y rhai sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau dysgu yn gwbl gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach o bartneriaid a theuluoedd sy'n ymwneud â'n gwaith, nac o'u barn a'u profiadau. Rydym yn buddsoddi mewn gwerthusiadau dulliau cymysg i adeiladu asesiad crwn a chadarn o'n heffaith, gan wirio dilysrwydd ein canfyddiadau o sawl ffynhonnell.

Cyfeiriadau allanol

- i. Farquharson, C., McNally, S., Tahir, I. (2,022). Lack of progress on closing educational inequalities disadvantaging millions. The IFS Deaton Review.
- ii. Mol, S. E., a Bus, A. G. (2,011). To read or not to read: a metaanalysis of print exposure from infancy to early adulthood. *Psychological Bulletin*, 137(2), 267; Dowdall, N., et al. (2,020). Shared picture book reading interventions for child language development: A systematic review and metaanalysis. *Child Development*, 91(2), e383–e399.

I gael trafodaeth ynglŷn â gweithio gyda ni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant drwy gefnogi darllen cysylltwch â ni drwy: impact@booktrust.org.uk



Cysylltu â ni

impact@booktrust.org.uk

booktrust.org.uk

Dilynwch ni ar y cyfryngau
cymdeithasol: @BookTrust

©2025 BookTrust. Rhif elusen: 313343



Supported using public funding by

**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Awards 2023
Winner
Activation of Insight